



## Ysgol Pentreuchaf

### 131. Polisi Saesneg fel Iaith Ychwanegol

#### Nod

Sicrhau fod disgyblion SIY (Saesneg fel iaith Ychwanegol) yn cael pob chwarae teg a chefnogaeth o fewn yr ysgol. I'r dyfodol, efallai y bydd gennym nifer o ddisgyblion SIY yn tarddu o amrywiol gefndiroedd ethnig, ieithyddol a diwylliannol.

#### Amcanion Gwasanaeth Ysgolion Gwynedd

1. Bydd Gwasanaeth Ysgolion Gwynedd yn cynghori a chynorthwyo ysgolion i weithredu eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau tuag at ddisgyblion SIY i sicrhau eu bod yn cael mynediad cyfartal i'r Cwricwlwm Cenedlaethol ac i gyrraedd eu potensial addysgol.
2. Sicrhau fod pob disgybl SIY yn cael mynediad i'r Cwricwlwm Cenedlaethol drwy dderbyn addysg prif lif.
3. Cefnogi'r disgyblion SIY ar gyfer medru datblygu medrau llythrennedd yn y Gymraeg a'r Saesneg.
4. Asesu cynnydd yn eu caffeiiliad o'r Gymraeg a'r Saesneg ar ddiwedd blwyddyn addysgol yn y sectorau cynradd ac uwchradd.
5. Sicrhau hyfforddiant i athrawon yn y strategaethau fydd yn diwallu anghenion disgyblion SIY.
6. Cefnogi'r disgyblion SIY a'u teuluoedd drwy gynnig gwasanaeth cyfieithu ar gais y rhieni, lle bo hynny'n bosibl, yn y famiaith.

#### Canllawiau

1. Bydd nifer o ddisgyblion yn hyfedr mewn sgiliau llythrennedd yn eu mamiaith tra y bydd eraill ag anghenion addysgol. Bydd rhai a sgiliau addysgol sy'n gymharol â'u cyfoedion tra bydd rhai nad ydynt erioed wedi cael cyfleoedd addysgol. Rhaid i ni gadw mewn cof nad yw diffyg mewn Saesneg/Cymraeg yn arwain yn uniongyrchol i anghenion dysgu.
2. Talu sylw i Fframwaith Statudol – Deddf 1994, Deddf Addysg 1988, Deddf Hiliaeth 1976, Deddf Plant 2004.
3. Mae gan bob disgybl SIY yr hawl i gael mynediad i addysg cyn ysagol a holl wasanaethau addysg.
4. Mae gan bob disgybl SIY yr hawl i gyfleoedd cyfartal ar gyfer cyrraedd llwyddiannau addysgol.
5. Mae dwyieithrwydd/amlieithrwydd yn gyflawniad addysgol gwerth chweil.
6. Nid yw diffyg dealltwriaeth o'r Gymraeg a'r Saesneg yn ei hun yn anghenion dysgu. Nid yw anghenion dysgwyr SIY yn gymharol ag anghenion addysgol arbennig.
7. Mae gan **Gorff Llywodraethu** yr ysgol ddyletswydd i sicrhau mynediad i adnoddau a darpariaeth briodol i bersonau o darddiad ethnig (Deddf Hiliaeth 1976), ac i gyfarfod gofynion Deddf 1944, Deddfau Addysg 1981 ac 1988 a Deddf Plant 2004.
8. Mae gan **bennaeth** yr ysgol ddyletswydd i sicrhau fod anghenion disgyblion SIY yn cael eu hadnabod a'u diwallu, cofnodi enwau'r disgyblion sydd angen cynhaliadau SIY ar y ffurflen (SIY 1), a sicrhau fod disgyblion SIY yn gallu integreiddio'n llawn i addysg prif lif.
9. Mae gan bob athrawes ddsbarth gyfrifoldeb dros ddatblygiad ieithyddol disgyblion SIY, ond darperir cyngor drwy'r gwasanaeth ymgynghorol.
10. Mae gan bob disgybl haawl i gael mynediad i'r Unedau Iaith.
11. Mae nifer fechan o athrawon profiadol ar gael i gynghori ynglŷn â darpariaeth i ysgolion unigol.
12. Hyrwyddir rhaglenni 'New to English' (Accipio Learning) a rgyfer disgyblion unigol, ond rhaid i'r ysgol ysgwyddo'r gost.

#### Asesu

1. Dylid cydnabod y gall disgyblion SIY wneud cynnydd arwyddocaol yn eu medrau llythrennedd mewn cyfnod byr. I eraill, gall y broses fod yn araf. Mae lefel deallusrwydd ym eu mamiaith yn effeithio'n uniongyrchol ar eu gallu i fabwysiadu ieithoedd ychwanegol.
2. Dylid sicrhau trefn o asesu mewnol ar gyfer sicrhau bod eu holl anghenion yn cael eu diwallu'n briodol.
3. Asesir drwy'r cynllun 5 cam (A – E) sydd wedi ei ddiffinio gan y Gwasanaeth Cenedlaethol SIY ar gyfer mesur dealltwriaeth a gallu yn Saesneg. Mae'r lefelau'n adnabod anghenion a cyn diffinio lefel y cymorth.
4. Os bydd angen asesu'r disgybl yn ei famiaith, trefnir hynny drwy'r Gwasanaeth Ysgolion.
5. Dylid gofalu nad yw'r asesiad yn rhyagfarnllyd tuag at ddisgyblion o grwpiau ethnig.
6. Dylid cymryd gofal arbennig wrth asesu disgyblion SIY sydd hefyd yn ddisgyblion ag anghenion addysg arbennig. Dylai'r niferoedd fod yn gymharol â disgyblion sydd yn arddel y Gymraeg/Saesneg fel iaith gyntaf.

#### Casgliad

Mae'r ddarpariaeth orau i'w chanfod pan fo athrawon dosbarth/cefnogol/ymgyngorol yn cydweithio'n agos ac yn sicrhau cydweithrediad y disgyblion a'u rhieni. Mae'n amlwg fod cynnydd addysgiadol disgyblion SIY yn cael ei ddylanwadu gan ethos ac awyrgylch yr ysgol ac agweddau a disgwyliadau athrawon. Mae'n hanfodol fod ysgolion yn gwerthfawrogi a datlu gwahaniaethau eithyddol a diwylliannol.

#### Adolygir: Chwefror 2017

Arwyddwyd: \_\_\_\_\_, Cadeirydd y Llywodraethwyr

Dyddiad: \_\_\_\_\_